# Llais Llandyrnog Voice


Gorffennaf 2020 – Cyfrol 5 – Rhifyn 10

## Yn y rhifyn hwn…



*Ble mae'r tŷ te yma?*

*Ymweliad brenhinol â Llangwyfan*



THE KING EDWARD VII
WELSH NATIONAL MEMORIAL ASSOCIATION.

VISIT OF
Their Most Gracious Majesties
King George V and Queen Mary
TO OPEN
The North Wales Sanatorium, Denbigh,
ON
JULY 16th, 1920.

PROGRAMME.



*Lluniau o'r ardal o'r awyr*

*Pwy sydd wedi hedfan o'r rhain – Canberra T4?*



# Cystadleuaeth llunio posteri Siop y Cigydd

Diolch o galon i'r holl blant am y posteri gwych – maen nhw wedi rhoi gwên ar wyneb pawb wrth iddyn nhw ddod i'r siop neu fynd heibio iddi. Roedden nhw'n dangos gwerthfawrogiad didwyll o waith yr holl weithwyr allweddol.

Roeddem wrth ein boddau bod Anti Wyn Wilson wedi mentro drwy'r tywydd gwael i ddod i feirniadu'r gystadleuaeth. Roedd hi'n benderfyniad anodd iawn a dewisodd Efa Gwen Roberts, 11 oed, a Mabel Jones, 5 oed, yn enillwyr y ddau grŵp oed.

Gan fod un o blant y staff wedi ennill, a phob ymgais wedi bod yn rhagorol, rydym ni a Chilly Cow wedi penderfynu rhoi hufen iâ i bawb sydd wedi cystadlu.

Diolch yn fawr iawn i Chilly Cow am eu cyfraniad a chofiwch gefnogi'r stondin gwerthu hufen iâ wrth fynedfa'r fferm.

*Staff Siop Clwyd Williams*



Efa Gwen Roberts – merch hapus iawn yn nôl ei hufen iâ a'i bocs o gig i'r barbeciw am ennill y gystadleuaeth dylunio poster. Dywedodd Efa, disgybl yn Ysgol Pen Barras, ei bod hi'n fodlon rhannu'r bocs barbeciw gyda'i brodyr, ond doedd hi ddim yn siŵr am yr hufen iâ!






Chilly Cow
Hufen Iâ Cymraeg – Welsh Ice Cream




STAY HOME
CLWYD WILLIAMS
CIGYDD TEULUOL
FAMILY BUTCHERS
D & J JONES LTD
EST 1972
LLANDYRNOG
THANK YOU

**4 Kinmel Terrace, Llandyrnog**

***Locally bred and home-killed meat***

**Hours of business:**

**Monday — closed**

**Tuesday-Friday 8am–5:30pm**

**Saturday 8am–2pm**

***Deliveries daily throughout the area***

***01824 790300***

**Aelodau'r Pwyllgor:**
Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler(trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler, Jack Crowther, Bryn Davies (tanysgrifiadau a hysbysebion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cyfieithwyr), Anne Rowley-Williams, Rhian Jones, Margaret a Rod Williams, Sian Gwyn-Ifan (cyfieithydd).
***Anfonwch eich newyddion a'ch erthyglau at llandyrnognews@gmail.com***

# Neges o Wlad Thai

Rwy'n gobeithio bod pawb yn ddiogel ac yn iach yn Llandyrnog – mae gen i dipyn o hiraeth ar eich ôl chi.

Nid yw Gwlad Thai wedi cael llawer o achosion o'r coronafeirws gan ei bod hi'n wlad boeth iawn, felly mae'r gwres yn ei gadw draw ar hyn o bryd.

Erbyn hyn, mae pobl yn cael teithio o'r dinasoedd i gefn gwlad ac mae'r llywodraeth wedi bod yn helpu pobl anghenus, ond ddim ond am dri mis. Maen nhw wedi cael arian, ond bydd yn rhaid i bawb dalu hwn yn ôl.





Rydyn ni wedi bod o dan glo hefyd, a phawb yn gorfod bod gartref erbyn 11 y nos. Byddai dirwy i'r rhai a fyddai allan, ond mae hon  wedi'i dileu nawr. Rhaid i bawb wisgo masg pan maen nhw allan neu gael dirwy o 2,000 baht (tua £50).

Fe gawson ni gorwynt ofnadwy yn ein tref ni a rwygodd y toeon oddi ar nifer o dai, ond rydyn ni i gyd yn ddiogel ac yn helpu'r bobl sydd wedi'u heffeithio ganddo.

Rydw i'n iawn ac yn ceisio cadw'n brysur – rydw i yn y deml drwy'r amser, yn helpu i blannu blodau a gwneud y lle'n lliwgar a phrydferth.

Byddwch yn ddiogel, a chofion cynnes iawn atoch,

*Nok Burge x*

# O gwmpas y pentre

Llongyfarchiadau i Dan a Hannah ar enedigaeth Nellie Lucia, chwaer fach i Max a Milo ac i James ac Amy ar enedigaeth Felix Langford.

Cydymdeimlwn â theulu'r ddiweddar Nia Jones, gynt o Dŷ Capel y Dyffryn. Anfonwn ein cofion cynnes iawn at Delyth, Carys a Gwyn, ei chwiorydd a'i brawd a fu'n byw yma yn ein plith. Cydymdeimlwn Hefyd cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Ronnie Slater, Maes Clwyd.

Dymunwn yn dda i Olga, Ger y Llan, yn dilyn ei thriniaeth yn Ysbyty Abergele.

Croeso'n ôl i'r pentre i Glesni a Ryan, Tŷ Gerddi.

**James Davies, A.S. Dyffryn Clwyd**
james.davies.mp@parliament.uk
Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920
Swyddfa Westminster: 0207 2194606

Ar ran holl dirfeddianwyr y fro: gofalwch eich bod yn cau pob gât pan fyddwch chi'n cerdded ar draws tir amaeth

# Taith i Batagonia

Mae fy ngŵr a fi wedi mwynhau llawer o deithio dros y blynyddoedd, ond fel athrawon roedden ni wedi'n cyfyngu i leoliadau roedden ni'n gallu'u gweld yn ystod mis Awst. Felly roedd o'n amhosib i ni fynd i wledydd hemisffer y de nes oedden ni wedi ymddeol. Ers i mi ddysgu siarad Cymraeg yn 2013, roeddwn i eisiau cael cyfle i siarad Cymraeg ym Mhatagonia, felly y lle cyntaf wnaethon ni ddewis oedd De America. Roedden ni'n lwcus iawn i fynd ym mis Chwefror eleni, jyst cyn i'r cyfnod dan glo yn dechrau!

Roedd 'na adegau pan feddylion na fyddai'n taith ni'n digwydd, efo Storm Ciara yn cyrraedd ar y diwrnod roedden ni'n ymadael. Rhaid oedd i ni yrru trwy'r storm i lawr i Lundain achos cafodd yr holl hediadau o Fanceinion eu canslo!

Ar ôl dau ddiwrnod yn Buenos Aires, yn gwario amser yn mwynhau safleoedd a oedd yn gysylltiedig efo bywyd Eva Peron, wnaethon ni hwylio ar y fordaith i Batagonia. Ar ôl mynychu gwers Sbaeneg ar y llong, wnes i holi a fyddai 'na wersi Cymraeg cyn cyrraedd Puerto Madryn – doedd 'na ddim, felly fe wnes i wirfoddoli.

Roeddwn i'n falch ofnadwy i rannu statws a hanes yr iaith Gymraeg efo bron 40 o gyd-deithwyr o UDA, Awstralia a Prydain, y rhan fwyaf ohonyn nhw ddim yn sylweddoli bod gynnon ni iaith fyw, yn cael ei defnyddio bob dydd yn yr ysgolion, busnes a llywodraeth. Siaradais i am y 'Welsh Not' a'r frwydr dros yr iaith yn ystod ail ran yr 20fed ganrif, ac yn iaith swyddogol o'r diwedd yn 2011. Dysgais i gyfarchion syml iddyn nhw – sut i ddweud o ble rydych chi'n dod, a faint o blant sy gynnoch chi. Wnaethon nhw ymarfer y brawddegau efo'r bobl oedd yn eistedd nesaf atyn nhw. Trwy weddill y trip, byddai pobl yn fy nghyfarch fi ar y dec, yn y lifft, neu yn y bwyty efo brawddegau roedden nhw wedi'u dysgu. Roedd rhai ohonyn nhw wedi gofyn sut i siarad â'u hanifeiliaid anwes yn Gymraeg neu sut i archebu crys-T maint canolig.



*Catherine (yn y canol, yn gwisgo glas) yn dysgu Cymraeg i'w chyd-deithwyr*

Wnaethon ni docio yn Puerto Madryn ble wnaeth y mewnfudwyr cyntaf gyrraedd yn 1865, a gwnaethon nhw ddefnyddio'r ogofâu i wneud cartrefi dros dro trwy'r gaeaf cyntaf.

Ces i sioc fawr, pan wnes i weld y tir! Roedd o'n wastad, yn sych, efo dim gwelltyn na choeden yn y golwg ac roedd popeth yn frown


BAASTOOL

• CALON WLÂN •

Baa Stool is a range of luxury British sheepskin furniture and home accessories with removable covers lovingly created in our workshop at The New Barn, 13 Vale Park, Colomendy Industrial Estate, Denbigh LL16 5TA.

www.baastool.co.uk

01824 790882

# Taith i Batagonia: Parhad

neu'n felyn! Roedd y lliwiau o dirlun Kyffin Williams yn berffaith! Aeth fy nghalon i allan i'r mewnfudwyr cyntaf! Taswn i wedi gwneud y daith hir o Gymru, yn breuddwydio am y bywyd sy'n well a wynebu hyn, baswn i wedi torri 'nghalon!

Gyrron ni am awr, gan basio trwy faestrefi Drelew cyn cyrraedd y Gaiman. Am wahaniaeth mae'r afon Camwy yn ei wneud. Mae Gaiman yn dref bert efo coed a llystyfiant ffrwythlon. Cawson ni gyfle i weld y tŷ hynaf, y swyddfa bost wreiddiol a'r ysgol, ond roedd hi ar gau achos roedd hi'n wyliau haf hir. Bydden nhw'n dychwelyd at ddechrau mis Mawrth ar gyfer blwyddyn newydd yr ysgol. Wnaethon ni ymweld â Tŷ Te Cymreig a chawson ni adloniant o gôr yn canu caneuon Cymreig traddodiadol ond hefyd Cwm Rhondda yn Sbaeneg. Ar ôl hyn, ces i gyfle i siarad Cymraeg efo un ferch o'r côr a gwireddu breuddwyd!! Roedd o'n eiliad '*pinch me'* go iawn i feddwl, roeddwn i'n 7,000 milltir o Gymru yn Yr Ariannin, ond naws y tŷ te yn teimlo fel gartre!

*Catherine Howarth*




*Catherine ac Ed yn y Gaiman*

---

Mae Banc Bwyd Dyffryn Clwyd yn apelio am gyfraniadau ariannol i brynu nwyddau i bobl anghenus. Cysylltwch ag Idris Humphreys ar 07833 560516 i holi sut mae cyfrannu.

Hefyd, ewch i valeofclwyd.foodbank.org.uk i gael rhagor o fanylion am waith y banc bwyd.

# Capel y Dyffryn

Er bod drysau'r capel wedi bod ar gau ers y cyfnod clo, cynhaliwyd gwasanaethau, i gychwyn ar dudalen *Facebook* Bro Dinbych. Yna trwy ddefnyddio technoleg Zoom, datblygwyd patrwm o wasanaethau ar-lein:

Gwasanaeth y Sul am 9.45am, Ysgol Sul am 10.30am

Nos Lun am 8 o'r gloch y Criw Crefft gyda Heledd

Nos Fercher am 8 o'r gloch, Cyfarfod Gweddi.

Yn ychwanegol, mae crynodeb o'r gwasanaethau Sul yn cael ei ddosbarthu i aelodau sydd heb y modd i ddefnyddio technoleg *Zoom*. Diolch i Andras Iago a Heledd am eu gwaith caled.

Mae Baby Basics Dyffryn Clwyd yn apelio am nwyddau i famau a babanod anghenus. Am ragor o fanylion anfonwch e-bost at babybasicsvaleofclwyd@gmail.com, neu chwiliwch am dudalen Facebook yr elusen.

**Tambo's Total Care Garden Maintenance**


- **Gardening**
- **Fencing**
- **Tree Work**
- **Turfing**
- **Hedges**
- **Logging**
- **Pressure Washing**

**Contact Oli Williams**

**Mob: 07501022017**

**Email: ohwwilliams75@gmail.com**

# Sanatoriwm Llangwyfan




GOLYGFA GYFFREDINOL O'R SANATORIUM.

Ar ôl i'r Brenin Edward VII farw, un o'r mudiadau a sefydlwyd i'w goffáu oedd Cymdeithas Goffa Genedlaethol Gymreig Brenin Edward VII. Nod hon oedd ymladd yr afiechyd ofnadwy, 'darfodedigaeth'.

Roedd Sanatoriwm Llangwyfan yn un o nifer yr oedd y Gymdeithas yn berchen arnyn nhw. Fe'i hadeiladwyd ar dir a roddwyd gan Syr D.S. Davies, A.S. er cof am ei dad-yng-nghyfraith, Thomas Gee. Yr hanes yw i'r safle gael ei ddewis gan mi dyna'r ardal lle byddai'r eira yn dadmer gyntaf.

Agorwyd y sanatoriwm yn 1916 gyda 110 o welyau a bu'r agoriad swyddogol gan Frenin Siôr V yn 1920.

Weithiau roedd llawdriniaeth yn angenrheidiol ac yn 1920 penodwyd Mr Morriston Davies yn Llawfeddyg Thorasig Ymgynghorol a bu'n arloesi mewn llawfeddygaeth ar y frest yn Llangwyfan. Hefyd darparai Ysbyty Llangwyfan hyfforddiant i nyrsys ar gyfer Tystysgrif Cymdeithas Darfodedigaeth Prydain.

Yn nyddiau cynnar yr ysbyty, roedd hyd arhosiad cleifion yn amrywio'n fawr. Yn y 1930au a'r 1940au roedd arhosiad o chwe mis yn cael ei ystyried yn un cymharol fyr, ond roedd rhai cleifion yn aros dwy, tair neu ragor o flynyddoedd.

Y prif driniaethau oedd awyr iach a gorffwys. Ar un adeg nid oedd gwydr mewn unrhyw ffenest ar y wardiau, dim ond caeadau pren tebyg i gaeadau Louvre. Roedd y rhain yn aml yn gollwng eira a fyddai'n chwythu ar y gwelyau.

Ychwanegwyd nifer o estyniadau, gan gynnwys nifer o gabanau gyda lle ynddyn nhw i 150 o welyau a gelwid hwn yn Ysbyty Argyfwng Llangwyfan. Adeiladwyd y rhain yn 1941 i ateb gofynion effeithiau'r rhyfel. Dynion oedd y cleifion i gyd.

Yn ei anterth yn yr 1940au a'r 50au roedd dros 400 o gleifion yn y sanatoriwm, a nifer yn dod o Dde Cymru, Sir Gaernarfon ac Ynys Môn. Ar benwythnosau, byddai nifer o fysus a

## Sanatoriwm Llangwyfan: parhad


cheir yn dod ag ymwelwyr i'r ysbyty, gyda nifer ohonyn nhw'n aros dros y Sul mewn tai yn Llandyrnog ac o gwmpas y pentre.

Yn yr 1950au, roedd llawdriniaethau'n dal i ddigwydd yn rheolaidd gyda llawfeddygon yn ymweld o Lerpwl ac o leoedd eraill bron yn wythnosol. Daeth newid i'r triniaethau gyda dyfodiad cyffuriau newydd. Erbyn 1952, roedd yr enw 'sanatoriwm' wedi newid i fod yn 'ysbyty' ac roedd yn trin cyflyrau eraill yn ogystal â'r diciâu.


Roedd cynlluniau ar y gweill i gau Ysbyty Llangwyfan erbyn yr 1970au. Rhoddwyd y safle ar werth yn 1980 yn sgil aildrefnu'r gwasanaethau ysbyty yng Ngogledd Clwyd. Er gwaethaf ymdrechion glew gan bwyllgor gweithredu lleol, caeodd yr ysbyty yn 1981.

Erbyn heddiw, Highfield Park yw enw'r safle ac mae ei berchennog, MHC (Mental Health Care UK) yn darparu gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu, problemau iechyd meddwl, ymddygiad heriol ag awtistiaeth.

*Diolch yn fawr i Gymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan am ganiatâd i ddefnyddio'r wybodaeth o'r gyfrol* Llandyrnog & Llangwyfan: Trem yn Ôl – A View of the Past. *Os hoffech darllen rhagor am yr ardal, gallwch brynu'r llyfr am £10 drwy gysylltu â llangwyfanhistory@hotmail.com.*




## Yr Agoriad Swyddogol



The King Edward VII Welsh National Memorial Association.

VISIT OF THEIR MAJESTIES KING GEORGE V. AND QUEEN MARY.

The President of the Association
(Major David Davies M.P.)
requests the honour of the Company of
at Luncheon
at the
North Wales Sanatorium, Llangwyfan, Denbigh,
on Friday July 16th at 1.30 p.m.

YOUR TABLE IS LETTERED
AND YOUR SEAT NUMBER 14

Mae'n amlwg bod cryn waith paratoi wedi bod ar gyfer yr ymweliad, gan fod y ffyrdd wedi'u cau o orsaf Dinbych i'r Sanatoriwm o 11.30 y bore tan 2.30 y pnawn. Cadwyd lle ger yr orsaf ac ar y ffyrdd tuag ato i blant ysgol yr ardal a'u hathrawon, cyn-aelodau'r lluoedd arfog a gweddwon milwyr.

Croesawyd yr osgordd frenhinol gan gant o filwyr, band, a chynulliad bach o bobl leol. Roedd hwn yn cynnwys Maer a Maeres Dinbych, Henaduriaid a Chynghorwyr Dinbych a'u gwragedd, a Chlerc y Dref. Ymhlith y pwysigion eraill roedd Syr D.S. Davies, A.S. Gorllewin Sir Ddinbych a'r Uwchgapten David Davies, A.S., Llywydd Cymdeithas Goffa Gymreig Brenin Edward VII.

Cyflwynodd y Maer anerchiad gan 'Faer, Henaduriaid a Bwrdeisiaid tref hynafol Dinbych' i'r Brenin. Roedd hwn yn waith wedi'i arlunio'n gain, yn Gymraeg gyda chyfieithiad Saesneg, ac mewn cas.

Teithiodd yr osgordd frenhinol mewn car o Ddinbych i'r Sanatoriwm. Cymerodd Archesgob Cymru a'r gweinidog enwog gyda'r Methodistiaid, y Parch. John Williams, Brynsiencyn, ran mewn gwasanaeth i gysegru'r Sefydliad. Cyflwynodd Mr T. Taliesin Rees, y pensaer, allwedd aur i'w Fawrhydi. Agorodd y Brenin ddrws blaen gyda'r agoriad hwn.

Ar ôl arwyddo'r llyfr ymwelwyr, aeth pawb i'r neuadd fwyta. Cafodd y Frenhines dusw o flodau gan ddau o'r cleifion. Mae'n ddiddorol nodi bod y cleifion yn dod o'r Blaenau, Sir Fynwy ac o Gaerdydd, sy'n dangos pa mor bell



July 1920 — Caledfryn Male Voice Choir with their veteran conductor, Mr T. R. Jones, when they sang for King George V at the official opening of Llangwyfan Hospital. *(Mr R. M. Owen.)*

y byddai cleifion yn dod i gael triniaeth. Cafodd y Brenin rodd o albwm lluniau o'r Sanatoriwm. Ar ôl ciniawa, cafodd yr ymwelwyr daith o gwmpas yr adeiladau gan gynnwys yr adeilad llawdriniaethau.

Canodd Côr Meibion Caledfryn 'God Bless the Prince of Wales' a chyd-ganodd pawb 'God Save the King'. Am 1.50pm aeth yr osgordd frenhinol i'r ceir ac ymadael i fynd i orsaf Dinbych.

*Diolch yn fawr iawn i staff Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru (Rhuthun) am eu cymorth a'u cydweithrediad wrth ddarparu'r eitemau o'r archifau ac am ganiatâd i'w cyhoeddi.*

**Oriau agor Swyddfa'r Post**

**Dydd Llun 9am–12pm, 3pm–5pm**
**Dydd Mawrth 9am–12pm, 3pm–5pm**
**Dydd Mercher 9am–12.30**
**Dydd Iau 9am–12pm, 3pm–5pm**
**Dydd Gwener 9am–12pm, 3pm–5pm**
**Dydd Sadwrn 9am–12.30**

**01824 790310**

**Prompt Travel**
**Taxi & Private Hire**

**4, 8 & 16-seat vehicles**
**24 hrs 7 days a week**

Incorporating Vale Private Hire

**01824 790485**
**07974 862027**

**Teithiau Prydlon**
**Tacsi a Hurio Preifat**

## Yr Ymweliad Brenhinol a Dyffryn Clwyd.



Ei Fawrhydi y Brenin Sior V.



Ei Mawrhydi y Frenhines Mary.



Ei Huchelder Brenhinol y Dywysoges Mary.


# YR YMWELIAD BRENHINOL A DYFFRYN CLWYD.

## SANATORIUM LLANGWYFAN.

Y mae ymweliad Brenin a'r Frenhines a'r Dywysoges Mary i Ddinbych mewn cyssylltiad â Sanatorium cofeb y Brenin Edward, wedi creu hanes yn y rhan hon o'r Dywysogaeth. Digwyddiad eithriadol yw ymweliad Brenhinol a'n bro. Y brenin olaf i dalu ymweliad â Dinbych ydoedd y Brenin Siarl y Cyntaf, a chafodd ei groesawu yn deyrngarol a chynnes. Daeth yma noson Medi, 1645, wedi brwydr Rowton More, sir Gaer, gan groesi'r Ddyfrdwy o Gaer gyda phum cant o wyr meirch. Arosodd yn Nghastell Dinbych am ddwy noson. Dyna adeg y rhyfel gartrefol olaf yn y wlad. Dyddorol yw sylwi ddarfod i'r Brenin Siarl, yn ddiau, ddyfod i Ddinbych ar hyd y ffordd sydd yn arwain o Langwyfan i'r dref.

Yn ein dyddiau ni, hefyd, ceir rhyfel yn myned yn mlaen—rhyfel er cael goruchafiaeth ar y gelyn mawr—Darfodedigaeth. Ar ol marwolaeth y Brenin Edward, cychwynwyd amryw fudiadau i ddathlu ei goffa. Maentumiwn feddwl fod ffurf y gofeb yn Nghymru yn un eithriadol a thra priodol. Penderfynwyd sefydlu cronfa i wrthweithio, trwy bob ffynnonell possibl mewn fferyllaeth, meddygaeth, a glanweithdra, ddylanwad dinystriol y "pla gwyn," ac i gadw'n wyrdd goffadwriaeth y Brenin Edward, oedd a chymmaint dyddordeb ganddo yn mhob ymgais i ymlid afiechyd o'r tir. Daeth y cyfoethog a'r tlawd yn mlaen gyda'u rhoddion yn galonog at y mudiad daionus, gyda'r canlyniad fod gwaith ymarferol yn cael ei wneyd er attal a gwella'r afiechyd o ddarfodedigaeth.

Y mae Sanatorium Llangwyfan yn un o amryw sefydliadau tebyg a berchenogir gan y Gymdeithas. Torwyd y dywarchen gyntaf ar Gorphenaf y 6ed, 1914. Daeth y rhyfel, oedwyd yr adeiladwaith, a chwanegwyd at y gôst. Ond er waethaf yr holl anhawsderau y mae'r Sanatorium wedi derbyn i mewn nifer liosog o gleifion er's dwy flynedd. Y mae "Surgical Block"—rhôdd Miss Davies, Plas y Castell—wedi ei chwanegu at y sefydliad, ac agorwyd yr adran hwnw gan y Brenin. Yr archadeiladydd ydoedd Mr. Taliesin Rees, Birkenhead; y contractor ydoedd Mr. Nevitt, Birkenhead. Saif yr adeiladau mewn lle dymunol, a derbynia belydrau gwresog yr haul a chysgod y bryniau rhag y gwynt deifiol.



*Darlun gan W. G. Hobley, Dinbych.*

Y "SURGICAL BLOCK," rhodd Miss Davies, Plas y Castell, Dinbych.

Cafodd agoriad swyddogol y Sanatoriwm gan y teulu brenhinol gryn sylw yn *Baner ac Amserau Cymru.*

# Tynnu lluniau gyda drôn

Rwy wedi bod yn adeiladu ac yn hedfan modelau o awyrennau, sy'n cael eu rheoli gan radio, ers 2008, ond hyd yn ddiweddar dydw i ddim wedi bod â llawer o ddiddordeb mewn dronau. Dydyn nhw ddim yn fodelau o unrhyw beth yn arbennig a does dim llawer o her wrth eu hedfan na'u hadeiladu. Serch hynny, rwy wedi bod yn cadw llygad ar y dechnoleg a pha mor soffistigedig mae honno'n mynd. Rwy wedi dod i edmygu sut mae dronau wedi cael eu datblygu a'r hyn maen nhw'n gallu ei wneud.

Weithiau byddan nhw yn y newyddion am resymau anffodus – ydych chi'n cofio pan gafodd maes awyr Gatwick ei gau'n gyfan gwbl ym mis Rhagfyr 2018? Mae'n siŵr bod fy mrawd yn cofio'n iawn – roedd ef a'i wraig wedi methu priodas ffrind yn Sbaen o ganlyniad i'r digwyddiad. Ers y ffiasgo hwnnw, mae'r Awdurdod Hedfan Sifil wedi cyflwyno rheolau newydd ar gyfer defnyddio dronau, gyda chynllun cofrestru a chod y mae'n rhaid i bawb sy'n hedfan unrhyw awyren dros 250gram gadw ato. Gan mwyaf, synnwyr cyffredin yw'r rheolau hyn a'u nod yw diogelu'r awyrennau mawr a phreifatrwydd ac eiddo pobl. Fe wnes i gofrestru fy awyrennau i y llynedd gan eu bod nhw'n cael eu hystyried yn UVAs (*unmanned aerial vehicles*).

Ar nodyn mwy positif, mae dronau'n cael eu defnyddio fwyfwy gan y gwasanaeth tân i weld ble mae tannau ar y bryniau a'r rhostir, a hefyd gan yr heddlu i ddod o hyd i bobl sydd wedi mynd ar goll. Nid yw'n bosib gwylio'r teledu y dyddiau hyn heb weld lluniau sydd wedi cael eu tynnu o'r awyr. P'un a ydy'r rhaglen yn ymwneud â bywyd gwyllt neu'r newyddion, drôn fydd wedi tynnu'r lluniau hynny.

Fy niddordeb pennaf i yw ffotograffiaeth a thynnu lluniau o dirwedd brydferth ein dyffryn fel y bydd yr adar yn ei gweld oddi fry, lluniau sy'n dangos sut mae'r tir yn newid gyda'r flwyddyn ffarmio yn yr ardal hon.

*Martin Fraser*



*Eglwys Llangwyfan*




*Penycloddiau*



*Y drôn*

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



**Manylion cyswllt:**

**Ffôn symudol: 07836 208446**

**E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk**

**Neu gadewch neges ar Facebook**

# Dod i adnabod... Ray Hamill (2)

Ym mis Chwefror, cefais amlen frown swyddogol. Er mawr ryddhad i mi, roedd yn fy hysbysu fy mod i wedi fy nerbyn i Sgwadron Awyr y brifysgol. Yn ogystal â'r hyfforddiant hedfan ar benwythnosau yn Woodvale, roedd pencadlys yn y ddinas gyda bar ac ystafelloedd dosbarth, lle y byddem yn cael hyfforddiant ar y ddaear ac yn cymdeithasu. Roeddwn wedyn yn benderfynol i gael gyrfa mewn hedfan.

Cefais gomisiwn yn yr Awyrlu ac ar ôl graddio, es i goleg yr Awyrlu yn Cranwell i gwblhau fy hyfforddiant i fod yn swyddog a'r hyfforddiant hedfan cychwynnol.

Un diwrnod yn ystod fy ngwyliau haf o'r brifysgol, dyma gyfarfod â Iona. Cefais wybod ei bod hi'n byw ar fferm Llety, Llangynhafal, lle'r oedd ei thad, Ifor Roberts, yn ffermio. Felly y dechreuodd perthynas hirhoedlog a phell, yn aml, gyda hi – doedd dim ffonau symudol na rhyngrwyd yr adeg honno, dim ond llythyrau a galwadau ffôn o'r ffôn cyhoeddus agosaf. Cyn 'mod i'n gallu fforddio prynu fy nghar fy hun, byddai fy nhad yn gadael i mi fenthyg ei gar o pryd bynnag yr oeddwn i gartre i ymweld â Iona.

Gorffennais fy hyfforddiant uwch yn RAF Oakington ger Caergrawnt. Rwy'n cofio mynd i fyny'r afon Cam mewn pynt i Granchester i gael te pnawn. Yng Nghanolfan yr Awyrlu, Scampton ger Lincoln, yr oedd fy swyddfa gyntaf, yn hedfan awyrennau bomio Vulcan.

Cyn symud i Scampton, priodais â Iona yn eglwys Llangynhafal. Ffurfiodd fy ffrindiau o'r Awyrlu fwa o gleddyf wrth i ni ddod allan o'r eglwys ac yna aethom yn ein blaenau i'r Woodlands i barhau i ddathlu.

Er fy mod i wedi mwynhau fy nghyfnod ar yr awyrennau Vulcan, dim ond rhyw unwaith neu ddwy yr wythnos y byddwn yn hedfan, felly pan gefais swydd yng nghanolfan Wyton i hedfan Canberras, dyma ddechrau cyfnod newydd. Ymunais â Sgwadron 360, uned hyfforddi rhyfela electronig yr Awyrlu. Ein prif waith oedd dysgu gweithredwyr radar i weithio o dan amodau wedi'u handwyo oherwydd rhwystrau gan y gelyn ac ymyrryd â chyfryngau radio. Byddem yn hedfan ddwywaith y dydd yn aml yn erbyn awyrennau ymladd, llongau neu ganolfannau radar ar y ddaear. Roedd hi'n hwyl hedfan y Canberra ac roedd y swydd yn cynnwys hedfan patrymog, hedfan yn isel ac ychydig o hyfforddiant ymladd ffug.

Symudodd Iona a minnau i St Ives, tre gyfeillgar a hen ffasiwn ac yn fuan wedyn cafodd Gail ei geni. Gwnes gais i fod yn hyfforddwr hedfan. Ar ôl cwblhau fy nghyfnod gyda'r Canberras, fe es i ganolfan Leeming yn Swydd Efrog i wneud y cwrs chwe mis a fyddai'n fy mharatoi i fod yn hyfforddwr. Wedyn cefais



*Ray yn rheoli awyren Boeing 747 400*


**A. JONES CARPET FITTING & CLEANING**

Carpet Fitted/Re-fitted/Repaired & Supplied
Underlay and Accessories Supplied
www.carpetfitter-ajones.co.uk

**Pomegranate Floor North Wales**

Domestic/Commerical Dry Carpet Cleaning
www.pomegranatefloornorthwales.com

**Freephone: 0800 180 4803 Mobile: 07900 907253**

# Dod i adnabod... Ray Hamill (2) - parhad



*Hyfforddiant* bulldog *uwchben pont enwog afon Forth – mae Ray yn yr awyren agosaf at y camera*

swydd yn Sgwadron Awyr Prifysgol Caeredin yng Nghanolfan Turnhouse ym maes awyr Caeredin.

Roedd hwn yn gyfnod prysur a phleserus ac yn llawer o hwyl. Ymgartrefodd Iona a minnau'n gyflym yn South Queensferry, nesaf at y pontydd enwog. Roedd ein tair blynedd yn yr Alban yn fwynhad pur, a chawsom nifer o gyfeillion.

Ymunodd nifer o'r myfyrwyr â'r Awyrlu a phan oeddwn i yno, dechreuwyd recriwtio merched a'u hyfforddi. Cyn hyn dim ond dynion oedd yn cael hedfan awyrennau ac erbyn heddiw mae'n yrfa i bawb. Wrth i fy nghyfnod yno ddod i ben, cefais ymholiad a fyddai gen i ddiddordeb mewn mynd yn ôl i Wyton fel hyfforddwr y sgwadron. Byddai hyn yn golygu hyfforddi, profi a chynnal safon peilotiaid y sgwadron – swydd ddelfrydol i mi.

Aethom yn ôl i Wyton ac ymgartrefu yn Stilton gerllaw. Dyma lle y buon ni nes i ni ddychwelyd i Gymru. Roedd nifer o'r hen wynebau wedi symud ymlaen ond roedd fy ail gyfnod yn Sgwadron 360 yn gymaint o hwyl ag yr oedd y tro cyntaf, er gwaethaf y cyfrifoldeb-au ychwanegol a'r llwyth gwaith.

Ers sawl blwyddyn, doedd neb o'r cwmnï-au awyrennau wedi bod yn recriwtio peil-otiaid, ond gyda sawl peilot ar fin ymddeol a chynlluniau i ehangu, cyhoeddwyd cynlluniau i recriwtio. Roedd hyn hefyd yn gyfnod pan oedd angen i mi benderfynu ymddeol neu aros yn yr Awyrlu. Er 'mod i'n hapus yn yr awyrlu, penderfynais fod hyn yn gyfle i mi gael newid gyrfa. Roedd yn rhaid i mi basio arholiadau a phrofion hedfan i gael Trwydded Peilotiaid Cludiant Awyr, gan nad yw'r Awdurdod Hedfan Sifil yn cydnabod cymwysterau hedfan milwrol. Ar ôl cael y drwydded, yn 1989 dechreuais hyfforddi ar awyrennau L1011 Tristar.

Roedd y Tristar yn fflyd fach ond cyfeillgar a hapus, yn hedfan i'r Unol Daleithiau, Y Dwyrain Canol, y Dwyrain Pell a Gorllewin Affrica. Wedyn fe es i hedfan awyrennau Jumbo 747. Roedd hon yn fflyd fwy a gallai sawl blwyddyn fynd heibio cyn i chi gydweithio â'r un criw eto.

Ar ôl dwy flynedd fe symudais i Gatwick. Roedd hon yn fflyd lai ac roedd hi'n haws dod i adnabod ein gilydd. 'Fflyd y traethau' oedd ein henw oherwydd roeddem yn mynd i fannau gwyliau'r Caribî a Chefnfor India.

Ar ôl dwy flynedd, bu'n rhaid i mi hyfforddi ar y gyfres 747 400, a gymerodd le'r hen




# Dod i adnabod Ray Hamill: parhad

awyrennau 747. Yr awyrennau cyntaf o genhedlaeth newydd o awyrennau digidol. Doedd dim angen peiriannydd mwyach a dim ond dau beilot roedd eu hangen i'w hedfan. Roedd yr awyrennau newydd hyn yn gallu hedfan yn bell iawn ac yn gallu cyrraedd bob man, ac eithrio Awstralia, mewn un daith. Gallai'r ehediadau fod yn 14 awr o hyd. Roedd hyn yn golygu y byddai'n rhaid cael peilot neu ddau ychwanegol er mwyn rhoi cyfle i'r peilotiaid orffwys.

Yn 2000, pan oeddem gartref ar ymweliad, soniodd tad Iona, Ifor, fod Bee Farm ar werth. Ein bwriad erioed oedd dychwelyd i'r ardal hon pan fyddwn i'n ymddeol. Symud cyn i mi ymddeol oedd ein penderfyniad ac felly daeth Bee Farm yn gartref i ni. Am sawl blwyddyn byddwn yn teithio'n bell i fy ngwaith, ond yn ffodus ddim ond dair neu bedair gwaith y mis. Heddiw, heblaw am wyliau, ddim ond yn lleol y bydda i'n teithio!

Ymhen ychydig flynyddoedd roedd Cath a Gail wedi ymuno â ni ac erbyn hyn mae'r teulu estynedig i gyd yn byw'n lleol.

Mae sawl un yn tybio bod peilotiaid yn dod i arfer â jet lag, ond dydi hyn ddim yn wir. Rhaid dysgu byw gydag o, dyna'r cyfan. Er 'mod i'n methu sawl peth o fy ngyrfa ddiddorol a breintiedig, dydw i ddim yn methu bod â jet lag drwy'r amser!

*Ray Hamill*



*Ray yn gofalu bod yr awyren 747 yn iawn cyn cychwyn – sylwch ar faint yr injan!*

## Cystadleuaeth Bwgan Brain, Ffrindiau Ysgol Bryn Clwyd

Agored i bob teulu yn Llandyrnog.

Dylai bob bwgan brain fod ar ddangos erbyn Gorffennaf 11eg i gael eu beirniadu a os allwch gadw nhw i fyny tan Dydd Llun, Gorffennaf 13eg er mwyn i bawb cael eu gweld.



Gwobr am y Bwgan Brain gorau

Mae hwn yn weithgaredd gwych i bawb yn y gymuned ymuno ag, yn enwedig yn 'Lockdown'!

Byddwn yn creu map i ddangos i chi lle mae'r bwgan brain

Gellir gwneud bwgan brain o unrhyw ddeunydd

£2 i gystadlu a mae'r holl arian yn mynd tuag at Ysgol Bryn Clwyd

Postiwch eich enw, cyferiad and rhif ffôn ynghyd â £2 trwy'r blwch llythyrau yng Nghigyddion Llandyrnog erbyn Gorffennaf 3ydd.

**Cofiwch hefyd am gais y Gymdeithas Hanes am eich cyfraniadau tuag at gofnod o brofiadau a digwyddiadau pandemig COVID-19.** Fe gewch anfon eich cyfraniad nawr neu'n nes ymlaen mewn unrhyw fformat. Anfonwch e-bost at llangwyfanhistory@hotmail.com, neu pan fydd y cyfyngiadau wedi dod i ben, gellir nôl eich cyfraniad oddi wrthych neu o focs yn y pentre. Os hoffech gyfrannu gwybodaeth yn ddi-enw, mae hynny'n iawn.

Mae sawl cwyn wedi bod yn ddiweddar am y cynnydd mewn baw cŵn yn y pentre. Defnyddiwch wefan Cyngor Sir Ddinbych i riportio achosion o faw cŵn mewn mannau cyhoeddus – chwiliwch am 'Cŵn yn baeddu' neu defnyddiwch y rhif ffôn sydd ar dudalen 19. Po fwyaf y caiff y Cyngor wybod am achosion, mwyaf tebygol fydd hi y daw'r tîm gorfodi i'r pentre. Os oes gan unrhyw un wybodaeth gyfrinachol am y sawl a allai fod yn gyfrifol, rhowch wybod i'r Cyngh. Merfyn Parry (manylion cyswllt ar dudalen 10)

# Ysgol Bryn Clwyd


Y mis yma mae'r babanod wedi bod yn gofyn eu cwestiynau eu hunain ac yn cydweithio i'w hateb. Un o'u dewis bynciau oedd anifeiliaid; roedd hwn yn ddewis y Dosbarth Iau hefyd yn ddiweddar. Mae Dosbarth Iau wedi bod yn trafod lliwiau ac antur, ac wedi mwynhau wythnos wyddoniaeth.

Dyma ychydig o waith celf gan y Dosbarth Iau dros yr wythnosau diwethaf: towcan (gan Olwen) o'n hantur i'r goedwig law, cŵn tywys (y llun mewn pensil gan Jefferey ac mewn lliw gan Nellie) o'n pwnc anifeiliaid, a cherrig bach wedi'u peintio (gan Amelia E.) o'n pwnc lliwiau.

Mae Stanley o ddosbarth y babanod yn dangos ei anifail a wnaeth o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu.












# Gair gan y Rheithor

Ar ôl tri mis o'r cyfnod clo, mae ailagor ysgolion a siopau sy'n gwerthu nwyddau nad ydyn nhw'n hanfodol, wedi gwneud i ni sylweddoli bod ein hymdrechion i aros gartre wedi gwneud gwahaniaeth. Cyn gallai siopau ac ysgolion agor eto, roedd tasg anferth ganddyn nhw i roi'r trefniadau angenrheidiol ar waith i sicrhau diogelwch pawb. Diolchwn am eu gwaith caled yn ystod yr adeg anodd iawn.

Mae croeso wedi bod i'r cyhoeddiad diweddar bod addoldai'n gallu ailagor ar gyfer gweddïo personol, ond yn yr un modd â'n hysgolion a'n siopau, rhaid rhoi mesurau diogelwch yn eu lle cyn y gallwn agor y drysau. Dydi ailagor ddim yn golygu dim ond datgloi'r drws a chael gwared ar we pry cop. Adeg ysgrifennu hwn, rydym yn disgwyl gweld a allwn fodloni'r canllawiau llym ar gyfer ailagor. Os byddwn ni, gobeithiwn agor yr eglwys am gyfnod cyfyngedig ar ddyddiau penodol ar gyfer cyfnodau byr o weddïo personol, unigol.

Heb wasanaethau ar ddydd Sul, mae nifer o bobl wedi bod yn mwynhau gwasanaethau ar y teledu ac ar-lein. Mae wedi cynnig amrywiaeth o arddulliau gwahanol o gyflwyno ac wedi dangos ffyrdd newydd o addoli ac emynau newydd. Mae'r gwasanaethau'n newydd ond recordiwyd y rhan fwyaf o'r canu cyn y cyfnod clo.

Mae emynau'n rhan bwysig o'n treftadaeth Gristnogol a bydd yn dwyn atgofion am ddigwyddiadau hapus a thrist. Mae rhai o'r emynau mwyaf poblogaidd yn hawdd eu cofio, ond fe fydd o leiaf un y bydd rhywun yn sôn amdano na fyddwn ni wedi'i glywed o'r blaen. Mae emyn cyfarwydd i un weithiau'n hollol anghyfarwydd i rywun arall.

Mae canu'n ddawn arbennig ac yng Nghymru mae gennym nifer o gantorion gwych. Mae marwolaeth ddiweddar y Fonesig Vera Lynn wedi'n hatgoffa ni y gall cân olygu cymaint hyd yn oed yn ystod yr adegau anoddaf. Mewn teyrnged i Vera Lynn, dywedwyd nad ei llais oedd yn ei gwneud yn un o gantorion gorau Prydain, ond ei hangerdd a'i didwylledd ym mhob cân.

Efallai nad ydym i gyd yn gallu canu'n dda, ond fel y byddai un aelod yn fy atgoffa'n gyson, 'Efallai nad y fi ydi'r gantores orau, ond mae Duw yn meddwl bod hyd yn oed y brain yn gallu canu.' Yn anffodus, doedd hi ddim yn gantores dda ond roedd ei llawenydd wrth ganu'n heintus. Ac mae canu yn hyfrydwch ac mae'n gwneud lles i ni – mae'n helpu ein hwyliau, yn cael gwared ar straen a hyd yn oed yn ein helpu i gysgu. Mae poblogrwydd corau cymunedol a chorau rhithiol erbyn hyn, yn dystiolaeth i'r llawenydd a ddaw wrth ganu.

Wrth i ni barhau yn y 'normal' newydd, boed i ni 'ddal i ganu'.

Gyda phob bendith,

*Val Rowlands*


**Cysylltwch â Green Fingers Garden Centre, Dinbych i archebu planhigion**
**Rhif ffôn: 01745 815279.**
**Cymerir archebion rhwng 10 a 12 ar foreau dydd Llun, Mercher ac Iau.**



Simon Barke HANDYMAN SOLUTIONS

www.sbhandymansolutions.co.uk

**Large range of trades – fully insured**

Interior and exterior painting and decorating
Wall and floor tiling
Guttering installed, repaired or cleared
Fence and gate building, erecting and repairs
Roof repairs and insulation
… and so much more – just ask if it's not listed here

**Please call or text for a free no-obligation quote:**
**07979 431564 or 01824 790047**
**Or contact me via email or Facebook:**
**s.barke28@gmail.com**
**facebook.com/SBHandymanSolutions**

# Cefn gwlad: gweision y neidr yn deffro

Mae'r gaeaf yn gyfnod tawel yn ein pyllau dŵr, ond wrth i'r gwanwyn sroi'n raddol yn haf c ynnar, mae gweision y neidr yn llawn cyffro. Mae'r penbyliaid wedi ymddangos a thyfu'n llyffantod, y madfallod dŵr yn ymddangos wedi cyfnod yn yr isdyfiant, a gweision y neidr a'r mursennod yn dechrau dod allan. Mae'n ymddangos eu bod nhw'n dechrau ar eu bywydau, ond nid dyna'r gwir – maen nhw wedi bod yn brysur yn datblygu o dan y dŵr!



Libelulla depressa, *(benyw) ar Foel Arthur*

**Cylch bywyd**

Nid yw gweision y neidr, fel y gloÿnnod byw, gwenyn a'r chwilod, yn mynd drwy'r cyfnod chwilerol, ond yn dangos tri cham penodol yn eu datblygiad.

Mae'r modd y bydd gweision y neidr yn paru yn unigryw – y gwryw a'r fenyw yn cyd-gloi mewn siâp olwyn. Ar ôl y paru a ffrwythloni'r wyau, mae'r fenyw yn chwilio am le diogel i'w dodwy. Fel arfer, bydd yr wyau'n cael eu dodwy yn agos at ymyl y dŵr, naill ai ar blanhigyn neu'n rhydd yn y dŵr.

Mae'r wyau'n deor o fewn 2–5 wythnos ac yn deor fel larfâu bychain. Mae'r rhain yn byw ac yn bwydo yn y dŵr am flwyddyn neu ddwy cyn bod yn barod am y cam nesa yn eu datblygiad. Gall rhywogaethau fel gweision neidr eurdorchog fod yn larfâu am bum mlynedd.

Mae'r larfâu'n bwydo ar nifer o fertebriaid ac anifeiliaid-di-asgwrn cefn, yn cynnwys larfâu pryfed eraill, pryfed genwair, malwod, penbyliaid a physgod bach. Pan fydd y larfa'n llawn dwf, bydd yn ymlusgo o'r dŵr ac yn glynu wrth dyfiant cyfagos. Yna, bydd yn torri'n araf trwy'i groen a gwthio'i ffordd allan drwy dwll bach tu blaen i bilenni'r adain. Pan fydd rhan ucha'r corff allan, bydd yn aros am sbel i haledu'r coesau, cyn ymwthio ymhellach yn ara deg a rhyddhau'r abdomen.

Yn y cam yma, yr unig beth sy raid i was y neidr ei wneud ydi pwmpio ei adenydd a'i abdomen er mwyn ailgyfeirio hylifau'r corff. Unwaith y bydd y corff yn ei lawn dwf, mae corff gwas y neidr ddwywaith yn hirach na'r croen larfaol. Ar ôl tua awr, bydd yr adenydd yn ddigon llawn a chaled iddo hedfan am y tro cyntaf erioed!

Unwaith y byddant wedi datblygu i'w llawn dwf, oes fer iawn sydd gan fwyafrif yr oedolion – dim ond wythnos neu ddwy fel arfer!

Dyma amser gwych i wylio'r gweision neidr a'r mursennod o gwmpas y lle – mewn pyllau bach, nentydd ac afonydd – pob un yn cynnig gwahanol gynefinoedd i rywogaethau gwahanol.

*Jim Kilpatrick*


J & G

TYRE SERVICES



Car - Truck - Farm Tyre Specialists

Batteries & Exhausts

Unit 1

Dyffryn Trading Estate

Rhyl Road

Denbigh

LL16 5SJ

01745 817676

07775 717602

# Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan

**Prosiect yr Ail Ryfel Byd**

Mae gwaith ymchwil Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan yn parhau i fynd rhagddo, ac mae'r gymdeithas yn dal i gasglu gwybodaeth, cofnodion ac atgofion o fywyd yn y pentrefi hyn yn ystod y rhyfel. Y bwriad yw cyhoeddi llyfr tebyg i'r llyfr a gyhoeddwyd am y Rhyfel Byd Gyntaf yn 2005. Unwaith eto felly rydyn ni'n gofyn i holl ddarllenwyr y Llais am eu help gyda'r ymchwil hon.

Mae'r gwaith o gasglu gwybodaeth eisoes wedi dechrau, a dyma ychydig o enghreifftiau o'r hyn a ddaeth i law hyd yma i'ch ysbrydoli.

Daeth Maureen Fuge (nėe Idle) i Landyrnog fel faciwî. Fe wnaeth David Sylvester recordiad sain o'i hanes, a dyma gyfieithiad o rai o eiriau Maureen.

*Pedair oed oeddwn i pan ddechreuodd y rhyfel yn 1939. Er ein bod ni'n byw yn Wallasey, roedden ni ar ein gwyliau ar y pryd, mewn llety yn y wlad o'r enw Plas Isaf yn Hendrerwydd. Bydden ni'n arfer mynd yno ar ein gwyliau, a dyna lle'r oedden ni pan ddechreuodd y rhyfel go iawn. Galwodd y perchennog bawb a oedd yn aros yno at ei gilydd i wneud y cyhoeddiad. Wrth gwrs, daethon ni adre, ac wedyn ym 1940 disgynnodd fom ar ein tŷ.*

*Disgynnodd y bom cyntaf ar Wallasey ar 10 Awst 1940. O gofio'n ôl, rhaid mai wedi'r amser hwnnw oedd hi pan ddisgynnodd y bom ar ein tŷ ni. Dyma ni'n cysgodi yn y lloches pan gwympodd cefn y tŷ drosti a'n claddu, a chaethiwo fy mam a minnau nes iddyn nhw ein rhyddhau. Wrth gwrs, 'doedd ganddon ni nunlle arall i fynd.*

*Fe wnaethon ni symud o Wallasey i Landyrnog, gan aros gyda menyw o'r enw Mrs Roberts. Roedd hi'n byw yn yr Anchorage ychydig y tu allan i'r pentref. Rhaid ein bod ni wedi cael ystafelloedd yno. Clywodd fy mam am fwthyn (Llawog Bach) a oedd yn eiddo i Mrs Richards (Cerrigllwydion Hall). Roedd pobman dan drwch o eira a bu'n rhaid i fy mam fy nghario o Landyrnog. Curodd fy mam wrth brif ddrws y plasty a chawsom ein hebrwng i mewn i'r lolfa. Roedd tân mawr ac roedd Mrs Richards yn sefyll a'i chefn ato, yn ei sgert frethyn a'i sanau gwlân, yn cadw ei hunan yn gynnes. Hawdd deall pam o ystyried pa mor oer oedd y tywydd y tu allan. Wedi holi, dywedodd Mrs Roberts fod y bwthyn yn wag a bod croeso inni symud i mewn. Gofynnodd fy mam beth oedd y rhent. Dywedodd Mrs Richards nad oedd angen i ni dalu rhent, gan ein bod ni wedi bod drwy ddigon.*

*Roedd fy nhad yn gweithio i'r Liverpool Corporation, sef yr enw bryd hynny ac roedd yn gosod yr holl drydan yn y llochesi lle'r oedd pobl yn cuddio rhag yr ymosodiadau o'r awyr. Chafodd o ddim ei alw i ymuno â'r lluoedd arfog. Pryd bynnag roedd o'n gallu, roedd yn dod draw o Wallasey, gan ddal y trên i Ddinbych ac wedyn dod ar ei feic i Landyrnog.*



Gall hen bethau neu roddion creu atgofion. Mae 'Cês y Germans' (uchod) yn bwysig iawn i Rod Williams. Dyma'i hanes:

*Dydw i ddim yn cofio'r person yn rhoi'r ces i fy rhieni, ond rwy'n cofio y byddai fy mam bob amser yn f'atgoffa bod y ces wedi cael ei roi'n anrheg gan garcharor rhyfel o wersyll Rhuthun. Rwy'n meddwl iddo wneud hynny fel arwydd o ddiolch a bod y ces wedi cael ei wneud yn y gwersyll ei hunan.*

*Roedd agwedd yr Almaenwyr tuag at eu gwaith wedi creu cryn argraff ar fy rhieni ac roedden nhw'n falch o allu cael eu help ar y*

**Prosiect yr Ail Ryfel Byd: parhad**

*ffarm. Byddai'r carcharorion rhyfel yn cyrraedd o Ruthun ar gefn lori agored a fyddai'n eu gollwng ar wahanol ffermydd ac wedyn yn cael eu casglu eto ddiwedd y pnawn. Ar ddiwedd y diwrnod gwaith, os oedd y lori'n hwyr yn cyrraedd, bydden nhw'n parhau i weithio tan y funud olaf. Yn ystod y dydd, bydden nhw'n cael eu cinio gyda ni, wrth yr un bwrdd. Rwy'n cofio fy mam yn dweud gymaint oedden nhw'n mwynhau eu cinio – byddai'r bwyd llawer gwell na'r hyn y bydden nhw'n ei gael yn y gwersyll!*

*Fel arfer byddai pobl yn cyfathrebu drwy iaith arwyddo – nid oedd y carcharorion rhyfel yn deall y Gymraeg na'r Saesneg, ac yn amlwg nid oedd fy rhieni'n gwybod unrhyw Almaeneg. Dydw i ddim yn cofio unrhyw ddrwgdeimlad yn cael ei ddangos tuag atyn nhw fel milwyr o'r Almaen neu'r Eidal. Bydden nhw'n cael eu trin yn gyfartal.*

Gobeithio eich bod wedi mwynhau cael blas ar y math o ddeunydd rydyn ni wedi ei gasglu hyd yn hyn ac y bydd yn eich ysbrydoli i gyfrannu at y prosiect. Cewch daro gwybodaeth berthnasol ar bapur neu roi gwybod inni os oes gennych unrhyw eitemau neu ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r Ail Ryfel Byd. Gallech dynnu llun ohonynt, eu sganio, neu ddim ond sôn wrthyn ni amdanyn nhw, a gallwn ni drefnu i gael golwg arnyn nhw rywbryd yn y dyfodol.

Cewch anfon eich gwybodaeth mewn unrhyw fformat – yn eich llawysgrifen, wedi ei theipio, yn ddigidol, neu drwy recordiad sain neu fideo. Cewch naill ai ei hanfon i llangwyfanhistory@hotmail.com neu, pan fydd bywyd wedi dod i ryw fath o drefn, gallwn naill ai nôl yr wybodaeth gennych neu drefnu bod blwch yn y pentre ar eu cyfer, mewn man cyfleus. Os yw'n well gennych i rywun arall wneud y gwaith, mae Julia a Rona bob amser yn barod i gael coffi a chacen!

Diolch yn fawr!

Gan fod y plant yn methu dod i gyfarfod Llan Llanast y mis yma, fe benderfynwyd mynd ag o atyn nhw. Ym mis Mehefin byddwn wedi bod yn meddwl am stori'r Pentecost, sy'n cael ei adnabod fel pen-blwydd yr Eglwys. Felly fe roeson ni 'bag pen-blwydd' ynghyd i bob un o'r plant. Roedd y rhain yn cynnwys stori'r Pentecost, roedden nhw'n gallu'i liwio – felly fe roeson ni bensiliau lliwio iddyn nhw hefyd! Roedd ynddyn nhw bob math o weithgareddau crefftau a phosau, cerdyn i'w wneud i rywun arbennig a llyfr bach yn anrheg.
Gobeithiwn y bydd y plant yn mwynhau'r holl weithgareddau ac edrychwn ymlaen at y dydd pan fyddwn yn gallu bod gyda'n gilydd eto.

*Marcy (dde) a Chloe ac Ella (isod)*





# Nodiadau o Blas Ashpool

Mae rheolau'r cyfnod clo yn para, a bywyd yn mynd yn ei flaen ym Mhlas Ashpool. Mae'r teulu yn dal acw, ac mae'r gwersi ioga wedi mynd o nerth i nerth. Os na fyddwn ni wedi cael ein deffro'n gynnar gan blantos bach, mi fydd gwersi'r sesiwn ioga'n siŵr o'n deffro ni. Ddoe, rydw i'n taeru i mi glywed rhywbeth fel hyn – 'Wrth i chi anadlu'n ddyfn, lledwch eich esgyrn-eistedd, estynnwch y gwddw, rhowch eich penelin chwith o dan eich cesail dde, ac ymestyn gyda'ch bawd troed chwith o dan eich clust dde, anadlu allan a rhoi eich pen ar y llawr wrth bwyntio'r bysedd traed eraill tuag at y dwyrain!' Wel, rhywbeth tebyg i hynny. Gobeithio mai'r Dosbarth Uwch oedd o!

Mi ddaeth hi'n ganol haf a glaw bendithiol, yn ogystal â thywydd mwll a stormus arferol yr adeg hon o'r flwyddyn. Ryden ni'r gwenyn-wyr yn cadw golwg rhag i'r gwenyn heidio – gan fod y cychod yn orlawn a'r newid yn y tywydd yn cymell eu greddf naturiol i edrych am gartrefi newydd. Wel, siŵr i chi, mi ddigwyddodd hynny i'r unig gwch sy gen i ar ôl. Mae sŵn y gwenyn wrth iddyn nhw adael y cwch a chodi i'r awyr yn un cwmwl du yn fyddarol a phenderfynol. Ar dop y gollen Ffrengig y glanion nhw, yn bell o afael neb. Ychydig oriau wedyn, mi setlodd y gwenyn ar wrych, ac mi es inne i baratoi'r offer i gyd i'w dal nhw. Ond, dyna pryd y penderfynodd y gwenyn ennill eu rhyddid am y tro ola!

Erbyn hynny, roedd 'na glecian taranau a sbotiau o law yn disgyn. Mi es i am y tro olaf ar hyd y gwrych a dod o hyd iddyn nhw, eu hysgwyd nhw i mewn i'r hen fasged wenyn a'u rhoi nôl yn y cwch newydd. Wrth i'r gwenyn olaf ymlwybro i mewn dros y ramp i'r cwch, dyma'r glaw taranau'n dod. Dw i'n meddwl eu bod nhw wedi bod yn wenyn lwcus iawn y noson honno!

Daeth cyffro arall fis yma pan ddaeth tair wagen sipsi a'u ceffylau i aros noson efo ni. Y tri anturiwr oedd, Andy, Jack a Stephen a'u wagenni lliwgar yn daclus a chyfforddus yr olwg. Cyn pen dim, roedd ganddyn nhw dân bach yn y gwersyll a chi Jack yn diddori'r plantos gyda'i driciau. Maen nhw'n cyfarfod yn rheolaidd ac fel arfer bydden nhw wedi mynd i Ffair Appleby y noson honno. Felly, roedden nhw'n gwneud y gorau o'r gwaethaf ac yn cael taith fach hamddenol drwy Ddyffryn Clwyd. Mor braf oedd gweld pluen o fwg yn codi a nofio yn yr awyr, a sŵn yr hen geffyle'n pori. Wrth i ni ffarwelio efo'r tri a throi'n ôl at ein tŷ confensiynol, roedd 'na ymdeimlad o heddwch y gall bywyd symlach fel hyn ei roi i rywun.



Gobeithio bod pawb ohonon ni'n dal i fwynhau pleserau syml bywyd – roeddwn i wrth fy modd yn gweld yr ardd fechan wrth y *Golden Lion* yn y pentre yn datblygu. Hyfryd. Diolch.

Felly, tan y tro nesa, mwynhewch y garddio

*Fiona Bell*

**Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu at y rhifyn hwn o'r *Llais*!**

**Rhifau Ffôn Defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345